

No.

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 20 Chwefror, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, E. Penn, J. Protheroe and S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, H.C. Hamilton, Dr. I.J. Johnson, N.C. Thomas and E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### 820 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 821 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir.

### 822 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorwyr C. Champion a P. Drake fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 5 – Argymhellion Archwilio Cymru Ynghylch Llywodraethu A'r Gwasanaeth Cynllunio – Pwyllgor Cynllunio. Natur y buddiant oedd bod y ddau Gynghorydd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio. Arhosodd y ddau yn y cyfarfod am gyfnod yr eitem.

### 823 ADRODDIAD DIWEDDARU: NEWIDIADAU I'R GWASANAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth.

No.

Wrth siarad gerbron y Pwyllgor, rhoddodd y Rheolwr Gweithredol gyflwyniad PowerPoint ar y ffactorau canlynol:

- Diweddariad ar berfformiad y gwasanaeth tanysgrifiad gwastraff gwyrdd newydd.
- Diweddariad ers gweithredu casgliadau bagiau du bob 3 wythnos.
- Diweddariad ar seilwaith.
- Diweddariad deddfwriaethol.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ynghylch a oedd gwastraff bagiau du o'r Fro yn cael ei anfon i Tsieina. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd hyn yn digwydd, a bod yr holl wastraff a gasglwyd wrth ymyl y ffordd neu o'r Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref yn cael ei anfon i Waith Viridor a'i ddefnyddio fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch casglu fêps, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod menter ailgylchu newydd i fod i gael ei chyflwyno gan fod angen casglu fêps ar wahân i fatris.

Gofynnodd y Cynghorydd Champion am gynlluniau ar gyfer casglu gwastraff ac ailgylchu fflatiau. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y bu cyfnod pontio lle'r oedd y Cyngor yn gweithio gyda landlordiaid i fynd i'r afael â rhai o'r materion ac i sicrhau bod landlordiaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Nododd y Pwyllgor nad oedd symud i gasgliadau gwastraff bob 3 wythnos wedi effeithio ar gyfradd tipio anghyfreithlon, ond bu effaith ar faint o ddeunydd, yn enwedig gwastraff bwyd, a gafodd ei roi ym miniau sbwriel y Cyngor. Felly, roedd y Cyngor yn dosbarthu tafenni i roi gwybod ei bod yn drosedd rhoi gwastraff penodol mewn biniau sbwriel cyhoeddus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at gynnig ynghylch gwaredu biniau sbwriel oherwydd camddefnydd a gofynnodd a oedd ymateb mwy priodol ar wahân i waredu biniau sbwriel. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod addysg a chodi ymwybyddiaeth hefyd yn bwysig. Roedd y Cyngor wrthi'n asesu'r math o ddeunyddiau a oedd yn cael eu rhoi yn y biniau sbwriel, felly pan oedd y data llawn ar gael, byddai'r Cyngor yn gallu drafftio rhai tasgau blaenoriaeth ar sut y gellid rheoli'r sefyllfa yn fwy effeithiol. Lle yr ystyriwyd ei bod yn briodol, gellir gwaredu rhai biniau, ond tynnodd y Rheolwr Gweithredol sylw at y ffaith bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol o hyd i lanhau ac i sicrhau ei fod yn cyflawni'r ddyletswydd honno, roedd angen bod â biniau mewn rhai lleoliadau fel ardaloedd manwerthu a llwybrau i ysgolion. Wrth gael ei wahodd i wneud sylw pellach, dywedodd y Cynghorydd Hooper ei bod yn bwysig sicrhau bod camau gorfodi yn cael eu defnyddio ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio'r biniau, gan nad yw gwaredu biniau o reidrwydd yn datrys y problemau. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod adnabod y rhai a oedd yn defnyddio'r biniau yn hynod o anodd a bod angen tystiolaeth. Cafodd gwaith gorfodi ei wneud gan y Cyngor, ond roedd hefyd yn heriol dros ben.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig rhoi gwybod i drigolion pryd y byddai biniau'n cael eu gwaredu.

No.

Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai pob Cynghorwyr y Fro yn cael cynnig cyfle i ymweld â safle Viridor ac i Aelodau'r Pwyllgor Craffu weld y cyfleuster treulio anaerobig. Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol y byddai ymweliadau'n cael eu trefnu.

Gwnaeth y Cynghorydd Ernest gyfres o ymholiadau a sylwadau, gan ofyn yn gyntaf a fyddai cynigion yn Lloegr ar gyfer casglu gwastraff ac ailgylchu yn cael eu hefelychu yng Nghymru. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gan Lywodraeth Cymru dargedau gwahanol i'r rhai yn Lloegr ac roedd gan Gymru hefyd ei glasbrint ei hun a oedd yn ymdrin â chasglu gwastraff ac ailgylchu deunyddiau. Gwnaeth y Cynghorydd Ernest sylw hefyd ar yr anawsterau yr oedd rhai trigolion yn eu cael ynghylch ailgylchu darnau mawr o gardbord, y bu'n rhaid eu plygu i ffitio i mewn i'r bagiau cynhwysydd. Yn ogystal, cododd y Cynghorydd Ernest y ffaith nad oedd papur gwastraff wedi'i roi mewn bagiau clir yn cael ei gasglu wrth ymyl y ffordd. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y system bresennol o gasglu cardbord a phapur yn fwy cynaliadwy a phwysleisiodd bwysigrwydd trigolion yn defnyddio'r bagiau cynhwysydd a roddwyd yn y modd cywir i ddiogelu'r deunyddiau ac osgoi halogiad diangen. Roedd hefyd yn bwysig cydnabod bod yr agoriadau ar y cerbydau gwastraff yn addas ar gyfer maint y cynhwysyddion.

Gofynnodd y Cynghorydd Penn a oedd y cynnydd mewn gwastraff gardd a gasglwyd yn ystod Covid oherwydd y ffaith bod pobl gartref mwy. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod cyfradd casglu gwastraff gwyrdd yn dibynnu'n bennaf ar y tywydd, ac nad yw glaswellt yn tyfu mor dda yn ystod cyfnodau hir o dywydd poeth. Gofynnodd y Cynghorydd Penn hefyd faint o wastraff a fyddai'n cael ei anfon at Waith Viridor yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gan y Cyngor gongtract 25 mlynedd gyda Viridor a oedd wedi ystyried targedau statudol llai o gasgliadau gwastraff. Roedd hynny'n golygu y dylai swm y gwastraff bagiau du fyddai'n cael ei anfon i'r gwaith leihau o flwyddyn i flwyddyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Iannucci faint y byddai'r newid i gasgliadau bob 3 wythnos ar gyfer fflatiau yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfradd ailgylchu darged o 70%. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'n cynorthwyo perfformiad y Cyngor, ond nid oedd union swm yr ailgylchu a oedd yn cael ei gynhyrchu yn hysbys gan fod cyfrifo swm y deunydd a oedd yn cael ei ailgylchu'n fwy heriol. Nodwyd, o gysylltu â landlordiaid, nad oedd rhai wedi bod yn darparu unrhyw ailgylchu, felly mae'n debygol y byddai'r newid yn cael effaith gadarnhaol.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod angen i gymdeithas ddefnyddio llai fel bod modd bwrw targedau. Gofynnodd y Cynghorydd Hooper am y maes parcio fflyd cerbydau yn Ystâd Fasnach yr Iwerydd, a dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y prosiect wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd yr heriau ariannol a oedd wynebu rhaglen gyfalaf y Cyngor.

Yn dilyn hynny,

No.

ARGYMHELLWYD – BOD Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio yn cefnogi'r newidiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor, tra'n dymuno sicrhau bod cynigion, megis symud i gasgliadau tair wythnos ar gyfer fflatiau a fflatiau a chael gwared ar rhai biniau sbwriel, bod camau priodol yn cael eu cymryd i gyfleu'r newidiadau i'r rhai yr effeithir arnynt.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

#### 824 ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU YNGHYLCH LLYWODRAETHU A'R GWASANAETH CYNLLUNIO (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r cyfarfod Cynllunio a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy.

Ym mis Mawrth 2023 dywedodd Archwilio Cymru wrth y Cyngor y byddai eu gwaith archwilio lleol ar gyfer 2023-2024 yn ymwneud â Chynllunio. Ym mis Gorffennaf 2023 gwnaeth Archwilio Cymru anfon briff eu prosiect, a oedd yn esbonio y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar Drefniadau Llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio. Roedd briff y prosiect wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.

Maes o law, cynhaliwyd yr adolygiad gan Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf/Awst 2023 i gael sicrwydd pellach bod trefniadau priodol ar waith o ran llywodraethu'r gwasanaeth Cynllunio, a bod gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau.

Amlinellodd Atodiad B yr adroddiad ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn. Dywedodd yr adroddiad fod canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan, a'r canfyddiad allweddol oedd: 'Canfuom fod diwylliant gwaith cadarnhaol gan y Gwasanaeth Cynllunio a'i fod yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion lles yn effeithiol ond roedd rhai bylchau yn y trefniadau llywodraethu yr oedd angen mynd i'r afael â nhw'.

Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar 25 Ionawr, gyda sylwadau a wnaed yn y cyfarfod yn ymwneud â maint agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a nifer y ceisiadau cynllunio a oedd yn cael eu penderfynu dan ddirprwyaeth swyddogion.

Gofynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Lloyd-Selby, am eglurhad mewn perthynas â'r cynllun dirprwyo ac a fyddai'r Aelodau yn dal i allu galw cais cynllunio i mewn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy y byddai'r weithdrefn galw i mewn yn parhau a barn Archwilio Cymru oedd bod y weithdrefn galw i mewn yn parhau'n werthfawr. Un peth y byddai Archwilio Cymru yn annog yr Aelodau i'w ymarfer oedd dyletswydd i fod yn ystyriol o bwrpas y Pwyllgor Cynllunio a'r materion a oedd yn haeddu sylw'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy hefyd mai fe a fyddai'n drafftio'r Protocol Cynllunio Iaith Syml. Ychwanegodd y swyddog y byddai adborth gan y

No.

Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ystyried. Yn ogystal, byddai unrhyw Aelod o'r Cyngor hefyd yn gallu cyflwyno sylwadau ar unrhyw adeg.

Dywedodd y Cyngorydd Iannucci y byddai'n bwysig cynnal yr ymgynghoriad yn eang o safbwynt cydraddoldeb a'r defnydd o iaith glir, a gofynnodd am y cynlluniau presennol. Nodwyd nad oedd rhaglen i ymgynghori y tu allan i'r tri Phwyllgor, ond roedd ymgynghori ehangach ynghylch cydraddoldeb yn rhywbeth a fyddai'n cael ei godi.

Cytunodd y Pwyllgor i argymhelliad i ymgysylltu ac ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig gael eu hystyried ymhellach, yn enwedig mewn perthynas ag ystyriaethau cydraddoldeb. Nodwyd bod Fforwm Cydraddoldeb a fyddai'n gallu ystyried y defnydd o iaith glir ac a oedd unrhyw brotocol cynllunio drafft yn addas at y diben.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD -

- (1) Y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn iddo ystyried canfyddiadau Archwilio Cymru.
- (2) O ran datblygu protocol cynllunio iaith blaen manwl, y dylid ystyried gweithgarwch ymgysylltu pellach yn ymarferol ynghylch y budd o ymgynghori â'r Fforwm Cydraddoldeb i sicrhau bod yr iaith glir a ddefnyddir yn addas i'r diben.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Caniatáu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried canfyddiadau adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethu gwasanaethau cynllunio a chyflwyno'r ymateb arfaethedig i'r argymhellion hynny.
- (2) Sicrhau bod y protocol cynllunio drafft yn addas i'r pwrpas o safbwynt cydraddoldeb.